

Prentisiaeth **Lefel 3** mewn lechyd (Cymorth Gofal lechyd Clinigol) yng Nghymru

HYD

14

MIS

Mae'r Brentisiaeth mewn lechyd (Cymorth Gofal lechyd Clinigol) ar gyfer Uwch Gynorthwywyr Gofal lechyd sy'n gweithio mewn ysbyty clinigol yng Nghymru, gan ddarparu cefnogaeth ddirprwyedig i unigolion o dan gyfarwyddyd ymarferydd cofrestredig. Nod y Brentisiaeth hon yw darparu'r sgiliau a'r wybodaeth sy'n ofynnol i ddod yn gymwys i gefnogi'r tîm nyrso.

I gyflawni'r Brentisiaeth hon, rhaid i chi fod yn cael eich cyflogi gan Wasanaeth lechyd Cymru mewn rôl sy'n darparu sgiliau clinigol. Yn benodol, dylech allu dangos eich bod yn:

- gallu gweithio o fewn timau amlddisgyblaethol, cynradd, eilaidd a/ neu gymunedol
- hyrwyddo dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- gallu lleihau'r risg o haint mewn lleoliadau gofal iechyd o fewn y GiG yng Nghymru
- deall egwyddorion diogelu ac amddiffyn
- defnyddio sgiliau cyfathrebu, rhifedd a chymhwysedd digidol fel sy'n briodol yn eich rôl

Yn ystod eich cyfnod dysgu, byddwch yn adeiladu 'pecyn' o wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau er mwyn i chi allu cyflawni eich rôl eich hun yn effeithiol. Bydd yr hyn y byddwch yn ei ddysgu yn eich cefnogi i gymryd cyfrifoldeb am roi eich gwybodaeth, eich dealltwriaeth a'ch sgiliau ar waith, meithrin annibyniaeth, ymreolaeth a'r hyder angenrheidiol ar gyfer swyddi ar y lefel hon.

Sut rydym yn darparu'r rhaglen hon

Caiff y rhaglen hon ei darparu ar sail un i un gan eich Tiwtor Gofal lechyd Clinigol penodedig eich hun.

Byddant yn cyfarfod â chi bob mis (wyneb yn wyneb neu'n rhithwir) i ddarparu addysg a hyfforddiant i'ch helpu i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau newydd a'ch tywys drwy'r rhaglen.

Yna, byddant yn asesu eich cymhwysedd drwy arsylwi sut rydych yn defnyddio'r sgiliau newydd yn y gwaith a'ch helpu i ddatblygu portffolio o dystiolaeth i brofi eich bod wedi bodloni'r gofynion.

Cymwysterau sydd wedi'u cynnwys yn y Brentisiaeth hon

Ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, byddwch yn cyflawni'r cymwysterau canlynol:

- Prentisiaeth mewn lechyd (Cymorth Gofal lechyd Clinigol)
- Diploma Lefel 3 mewn Cymorth Gofal lechyd Clinigol yng Nghymru
- Sgiliau Hanfodol Cymhwyso Rhif Lefel 2 (os oes angen)
- Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu Lefel 2 (os oes angen)
- Sgiliau Hanfodol mewn Llythrennedd Digidol Lefel 1 (os oes angen)



Er mwyn cyflawni'r Diploma Lefel 3 mewn Cymorth Gofal Iechyd Clinigol yng Nghymru mae'n rhaid i chi gyflawni 60 credyd.

Mae hyn yn cynnwys:

- 16 credyd y mae'n rhaid eu cwblhau o Restr Grŵp Gorfodol A
- Mae'n rhaid cwblhau un o'r opsiynau gorfodol gwerth 16 credyd o leiaf o Grŵp B1 neu 19 credyd o Grŵp B2
- 28 Credyd o Grŵp Dewisol C - Uchafswm o 12 credyd ar Lefel 2

Grŵp Gorfodol A

Uned	Rhif	CV*
Lleihau Heintiau mewn Lleoliadau Gofal Iechyd o fewn y GIG yng Nghymru	619	4
Sgiliau Cyfathrebu i'w defnyddio mewn Lleoliadau Gofal Iechyd	641	7
Gweithio o fewn Timau Amlddisgyblaethol, Cynradd, Eilaidd a/neu Gymunedol	642	2
Egwyddorion Diogelu ac Amddiffyn mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol	723	3

Grŵp Gorfodol B1

Uned	Rhif	CV*
Sgiliau Sylfaenol ar gyfer Ymarfer yn y Gwaith yn y GIG yng Nghymru	643	16

Grŵp Gorfodol B2

Uned	Rhif	CV*
Hyrwyddo Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	645	2
Egwyddorion ar gyfer Gweithredu Dyletswydd Gofal	646	1
Hyrwyddo Dulliau sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn	648	6
Hyrwyddo a Gweithredu Iechyd a Diogelwch	649	6
Hyrwyddo Arfer Da wrth Ymdrin â Gwybodaeth	651	2
Cymryd Rhan mewn Datblygiad Personol	673	2

*Gwerth credyd



Grŵp Dewisol C

Uned	Rhif	CV*
Gweithio mewn Partneriaeth gyda Theuluoedd i Gefnogi Unigolion	274	4
Cefnogi Unigolion ar Ddiwedd Oes	277	7
Darparu Cymorth i Gynnal a Datblygu Sgiliau ar gyfer Bywyd Bob Dydd	342	4
Cefnogi Unigolion i Sicrhau Mynediad a Defnyddio Gwasanaethau a Chyfleusterau	346	4
Monitro a Chynnal yr Amgylchedd a'r Adnoddau yn ystod ac yn dilyn Gweithgareddau Clinigol/Therapiwtig	458 Level 2	3
Cynnal Safonau Ansawdd yn y Sector Iechyd	521	2
Trin a Gorchuddio Briwiau a Chlwyfau	532	4
Cynnal Asesiadau Ciyw	539	5
Ailbroesu Cyfarpar Endosgopi	555	4
Cefnogi Unigolion i Ymgymryd â Gweithgareddau o'u Dewis	557	4
Cefnogi Gofalwyr i Ddiwallu Anghenion Gofal Unigolion	560	5
Cyfrannu at Atal Ymddygiad Ymosodol a Cham-drin Pobl	587	4
Diheintio a Glanhau	621 Level 2	2
Cefnogi Annibyniaeth wrth Fyw o Ddydd i Ddydd	626 Level 2	5
Gofal ar gyfer Unigolion sydd â Chathetr Wrethrol	638 Level 2	4
Darparu Cefnogaeth ar gyfer Symudedd	639 Level 2	2
Rhoi Meddyginiaeth a Monitro'r Effaith ar Unigolion	652	5
Cefnogi Unigolion i Reoli Anawsterau Llyncu	654	3
Gosod Pibell Fewnwythiennol	655	4
Gofalu am Ddraen Clwyfau	656	4
Datblygu a Rhedeg Grwpiau Cymorth	657	3
Gweithredu Gweithgareddau Grŵp Therapiwtig	658	4
Casglu Samplau Gwaed o'r Gwythiennau	659	3
Cynnal Profion Electrocardiograff (ECG) Arferol	660	3
Cefnogi Unigolion i Fyw yn eu Cartrefi	661	4
Tynnu deunyddiau cau clwyfau	662	3
Cynnal Asesiadau Risg ar Hyfywedd Meinwe	663	3
Deall y Broses Dementia	664	3

Uned	Rhif	CV*
Casglu Hanes Cleientiaid	666	2
Paratoi Unigolion ar gyfer Triniaeth Glinigol Level 2	668 Level 2	3
Darparu Cefnogaeth er mwyn Parhau gyda Therapiau a Argymhellir	669	3
Gwella Gwasanaeth o fewn y Sector Iechyd	670	3
Gofalu am Stoma'r Coluddyn a'r Bledren	671	4
Cathetreiddio a Gofalu am y Cathetr	699	5
Paratoi a Defnyddio Technegau Bwydo Enterig	702	4
Hyrwyddo Iechyd Meddwl a Llesiant	742	3
Deall Problemau Iechyd Meddwl	743	3

***Gwerth credyd**

Y prif ddulliau asesu o fewn y cymhwyster hwn fydd trwy arsylwi gwaith ymarferol, trafodaeth broffesiynol, adroddiad myfyriol ysgrifenedig ac atebion ysgrifenedig.

Mae'r gweithgareddau asesu wedi cael eu llunio i ganiatáu ar gyfer casglu tystiolaeth gyfannol. Mae hyn yn golygu y bydd eich tystiolaeth yn cael ei chasglu o sefyllfaoedd gwaith go iawn sy'n dangos y gallwch chi weithio'n hyderus ac yn gyson ar draws pob agwedd ar y cymhwyster ar fwy nag un achlysur, gan eich galluogi i ddangos eich gwybodaeth a'ch sgiliau ar draws gwahanol unedau a chanlyniadau dysgu o fewn yr un gweithgaredd, ynghyd ag osgoi ailadrodd unrhyw asesiad.

Bydd y tasgau'n ei gwneud yn ofynnol i chi integreiddio eich gwybodaeth a'ch sgiliau mewn ffordd sy'n adlewyrchu gofynion y gweithle a'r sector. Mae'r asesiad, felly, yn canolbwyntio ar sicrhau ansawdd a chysondeb eich ymarfer.

Gofal, dyna beth rydyn ni'n ei wneud

I gael copi o amlinelliad y cwrs hwn yn Gymraeg, cysylltwch â ni
marketing@t2group.co.uk

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â ni yn:  029 2079 9133

 www.t2group.co.uk

 info@t2group.co.uk



UNDES EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Uywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund